



Rhaglen Gyflawn
Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

Asiantaeth Gefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

1.30 y.h., Dydd Llun, 16eg Mai, 2016,

Committee Room 2, Council Offices, Cae Penarlâg, Dolgellau,
Gwynedd. LL40 2YB

Rhaglen

- | | | |
|-----|---|---------------------|
| 1. | YMDDIHEURIADAU | |
| 2. | COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL A MATERION YN CODI | (Tudalennau 2 - 6) |
| 3. | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | |
| 4. | ADRODDIAD CYD BWYLLGOR | (Tudalennau 7 - 21) |
| 5. | DIWEDDARIAD AR ARCHWILIAD A MEINCNODI CYNNAL A CHADW CYLCHOL ACGChC | |
| 6. | CYTUNDEB CYFLAWNI GWASANAETHAU 2016 | |
| 7. | ADOLYGU TREFNIADAU DARPARIAETH CYNNAL A CHADW CYNGOR DINBYCH | |
| 8. | CYLLID | |
| | i) Cyllidebau 2016/17 | |
| 9. | UFA | |
| 10. | DYDDIAD CYFARFOD NESAF | |

CYD-BWYLLGOR ASIANT CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU 28-09-15

**Cynhaliwyd am 1.00pm, Dydd Llun, 28 Medi 2015
yn Ystafell Bwyllgor 2, Cae Penarlâg, Dolgellau**

Yn bresennol - Y Cynghorydd Alun Williams (Ceredigion) (Cadeirydd)
Y Cyng. John Wyn Jones (Gwynedd) (Is-gadeirydd)

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr David Smith (Sir Ddinbych), David Cowans (Conwy), John Brunt (Powys), Dilwyn Williams (Prif Weithredwr, Gwynedd), Nigel Brinn, Pennaeth Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu (Powys), Darren Williams (Pennaeth Gwasanaeth, Wrecsam), Dewi Williams (Pennaeth Gwasanaeth, Ynys Môn), Gwyn Morris Jones (Pennaeth Gwasanaeth, Gwynedd), Geraint Edwards (Pennaeth Gwasanaeth, Conwy), Rhodri Llwyd (Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Priffyrdd, Ceredigion), Dave Cooil (Pennaeth yr Asiant, ACGCC), Ian Hughes (Rheolwr Busnes ac Ansawdd, ACGCC), Lynda Humphreys (Gweinyddwr, ACGCC),

Ymddiheuriadau: - Y Cynghorwyr Bernie Attridge (Sir y Fflint), Neil Rogers (Wrecsam), John Arwel Roberts (Ynys Môn), Bob Dutton (Wrecsam), David Bithell (Wrecsam), Steve Parker (Pennaeth Gwasanaeth, Sir Ddinbych), Huw Morgan (Cyfarwyddwr Strategol, Ceredigion), Paul Arnold (Pennaeth Gwasanaeth, Ceredigion), Steve Jones (Pennaeth Gwasanaeth, Sir y Fflint)

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Alun Williams (Ceredigion) fel Cadeirydd y Cyd-bwyllgor am y flwyddyn i ddod.

2. ELECTION OF VICE CHAIR

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John Wyn Jones (Gwynedd) fel Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor am y flwyddyn i ddod.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim.

4. COFNODION CYFARFOD BLAENOROL - 29 IONAWR 2015

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. MATERION YN CODI

i) Aseidiadau Ariannol ar gyfer Awdurdodau Partner – Ymhellach i'r cais gan Dilwyn Williams yng nghyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor ar 29 Ionawr 2015 i ddarparu asesiad ariannol ar gyfer pob Awdurdod Partner o'r newid yn y model ar ôl yr Asiantaeth gan gynnwys trosglwyddo swyddogaethau craidd perthnasol. Ar ôl i LC dderbyn yr achosion busnes ar 27 Awst 2015 a gyflwynwyd gan ACGCC ar 31 Ebrill 2015, darparwyd aseidiadau ariannol i AP unigol ar 25 Medi 2015 yn dangos trosiant y swyddogaeth weddilliol ddangosol, cyfraniad at orbenion a gwerth ffioedd.

Mae'r asesiad wedi ystyried y gyllideb waelodlin ddiwygiedig o £37.88M a gadarnhawyd gan LIC ym mis Medi 2015 yn erbyn yr hyn mae'r cyfanswm targed arbedion cost o £7.75M yn awr yn cael ei fesur. Dynododd DRC bod yr asesiad wedi dangos y dylai'r mewnbwn ar gyfer yr unedau gwaith aros fel y bu yn y blynyddoedd blaenorol ond bydd cyfansoddiad gweithgareddau gwaith yn newid yn unol â gofynion manyleb newydd Llawlyfr Rheoli Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru (LIRhCLIC) 2015.

6. ADRODDIAD Y CYD-BWYLLGOR

Rhodddwyd diweddariad gan DRC.

Dyrannu Gwaith i Unedau Darparu Gwasanaeth Awdurdodau Lleol – Adroddodd DRC bod y taliadau terfynol ar gyfer 2014-15, yn amodol ar gytuno ar hawliadau terfynol, yn dangos bod disgwyl i wariant refeniw amcanol ar gyfer 2015-16 fod yn debyg i 2014-15, er bod y lefelau ariannu cyfalaf yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd hyn yn effeithio ar lwyth gwaith Ymgynghoriaeth AP ac ar gadwyn sector preifat yr Asiant ar gyfer gweithgareddau ymgynghoriaeth ac adeiladu.

Cytundeb Partneriaeth – Er gwaethaf lefelau uchel o ansicrwydd ynglŷn â threfniadau Rheoli Cefnffyrdd yng Nghymru yn y dyfodol, adroddodd DRC na fu unrhyw broblemau o ran cyflwyno gwasanaeth parhaus gan yr Awdurdodau Partner ac y cafwyd cydweithio a chymorth da hyd yma wrth weithredu mesurau lleihau cost arfaethedig.

Cofrestr Risg – Dangosodd cofrestr risg gyfredol ACGCC a gyflwynwyd gan DRC y camau parhaus a weithredwyd er mwyn rheoli a lliniaru risgiau i'r Asiant, gyda llawer ohonynt wedi'u cyflwyno ym mis Ebrill i LC.

7. DIWEDDARIAD AR DDATGANIAD Y GWEINIDOG

Rhodddwyd diweddariad gan DRC.

i) Llythyr Penderfyniad y Gweinidog 11/8/15

Derbyniwyd llythyr ynglŷn ag ymateb y Gweinidog i arbedion cost ACGCC a gyflwynwyd i LC ar 31/4/15 ar 11/8/15 ac fe'i hanfonwyd at Awdurdodau Partner ar 18/8/15. Dyma oedd prif bwyntiau'r ymateb:

- Derbyn yr arbedion arfaethedig a'r achosion busnes cysylltiedig
- Parhad model cyflwyno presennol y Sector Cyhoeddus yn amodol ar wireddu'r arbedion a nodwyd yn yr hyn a gyflwynwyd gan ACGCC.

Fodd bynnag, roedd y Gweinidog yn awyddus i gyflwyno technoleg newydd ac arloesedd i'n proses o gyflwyno gwasanaeth a chawsom ein herio i gyrraedd targed caeth o £3m o arbedion pellach i'w cyflawni erbyn mis Mawrth 2018.

ii) Adborth o'r Cyfarfod gyda LIC 27/8/15

Darparwyd diweddariad gan DRC a gadarnhaodd bod y cyfarfod yn galonogol ar y cyfan a bod Sheena Hague (Dirprwy Gyfarwyddwr LIC) wedi cadarnhau bod y cyflwyniad gwreiddiol wedi cwrdd â gofynion swyddogion LIC, ac wedi rhagori ar ddisgwyliadau arbedion cost, ond

gwrthodwyd y cyflwyniad gan y Gweinidog – a oedd yn esbonio'r gofyn i gyrraedd targed caeth.

Y waelodlin o ran cyflawni'r arbedion pellach yw'r LIRhCLIC 2015 wedi'i gostio'n llawn. Cost amcanol ACGCC ar gyfer y safon ddiwygiedig hon yw £37.9m o'i gymharu â gwariant hanesyddol gydag Awdurdodau Partner o thua £27m. Felly, hyd yn oed gydag arbedion cost o £7.75m, roedd yn debygol y byddai mewnbwn gwaith gydag unedau gwaith Awdurdodau Partner yn cael ei gynnal a'i gynyddu o bosib i ryw raddau drwy ofynion cynyddol LIRhCLIC 2015 oedd yn galonogol.

Datganodd Nigel Brinn (Powys) bod hyn yn newyddion da o ran yr hyn a ddisgwyliwyd. Cydnabuwyd hyn gan y Pwyllgor.

8. CYFLWYNIAD GAN ACGCC I LC 31/4/15

Ar ôl i LC dderbyn cyflwyniad 31 Ebrill gan ACGCC, cadarnhaodd DRC bod amcanion cyflwyniad ACGCC i'r Cyd-bwyllgor ar 29 Ionawr wedi'u bodloni oherwydd yr hyn a ganlyn:

- Byddai'r model fyddai'n cael ei arwain gan y sector cyhoeddus yn cael ei gadw gan LC;
- Cedwir y cyfraniad at ddepo'r uned waith a gorbenion costau sefydlog cynnal a chadw yn ystod y gaeaf;
- Cedwir y darbodion maint o gynnal rhwydweithiau Cefnffyrdd a ffyrdd Sirol;
- Cedwir cyflwyniad gwasanaeth gan yr uned waith a'r ymgynghoriaeth.

i) Trosolwg o newid model ACGCC

Darparwyd trosolwg gan DRC. Y bwriad oedd gweithredu'r model newydd rhwng nawr a mis Mawrth 2015. Byddai'r mwyafrif o'r swyddogaethau craidd a oedd wedi'u caffael yn hanesyddol drwy swyddogaeth y Weinyddiaeth Dechnegol yn trosglwyddo i'r Asiant ym mis Ebrill 2016. Byddai rhai swyddogaethau'r Weinyddiaeth Dechnegol sydd yn weddill yn aros gydag Awdurdodau Partner yn cynnwys swyddogaethau Cyngor ar Reolaeth Ddatblygu, Monitro Signalau Pell a Chanolfan Alw. Byddai'r swyddogaethau archwilio arbenigol a gyflawnir ar hyn o bryd gan unedau ymgynghoriaeth AP hefyd yn cael eu mewnloli yn ACGCC.

ii) Asesu goblygiadau staffio

Adroddodd DRC bod cyfarfodydd manwl yn cael eu cynnal yn unigol gyda phob AP ym mis Medi gyda'r bwriad o nodi nifer y swyddi gyda TUPE a sut i reoli'r staff Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) nad oeddynt yn disgyn o fewn proses TUPE.

Ar gyfer trosglwyddiadau nad oeddynt yn TUPE, eglurodd DRC bod yr Asiant yn bwriadu gweithio ar ddull o ddewis grwpiau i'w hystyried ymlaen llaw ar gyfer pob swyddogaeth fyddai'n cael ei throsglwyddo. Felly, bwriedid adnabod y staff fyddai'n cael eu heffeithio, goblygiadau swyddi a llwythi gwaith presennol fyddai'n pennu'r grwpiau i'w hystyried ymlaen llaw. Erbyn canol mis Hydref 2015, bwriedid cytuno ar y grwpiau fyddai'n cael eu hystyried ymlaen llaw a'r grwpiau TUPE gyda phob AP gyda chyfnod trawsnewid rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol. Byddai staff yn y grwpiau i'w hystyried ymlaen llaw yn cael eu gwahodd i wneud cais am swyddi gyda'r Asiant yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr. Nododd DRC ei fod yn bwysig fod trefniadau trosglwyddo staff yn cefnogi'r achosion busnes a bod cyfleoedd gwaith yn cael eu cadw cyn belled ag y bo modd.

Gallai'r broses hon effeithio ar hyd at 50 swydd ar draws saith AP. Roedd chwe aelod o staff wedi cael eu hasesu fel rhai oedd yn gymwys ar gyfer TUPE gyda'r cydbwysedd o bosib yn

disgyn i'r grwpiau fyddai'n cael eu hystyried ymlaen llaw. Roedd yr Asiant mewn trafodaethau gyda phob AP ar hyn o bryd.

Codwyd y mater o alwadau/ymholiadau i'r ganolfan alw a cheisiadau am wasanaeth gan Gwyn Morris Jones. Adroddodd DRC y byddai'r Asiant yn defnyddio canolfannau galw pob AP ac yn gwneud cyfraniad er mwyn bodloni costau AP.

iii) Cynllun a Rhaglen Gyflawni

Cyflwynwyd y proffil a'r amserlen arbedion arfaethedig gan DRC. Dangosodd y rhaglen y byddai'r newidiadau sefydliadol mwyaf arwyddocaol yn digwydd o fis Ebrill 2016 ymlaen. Nododd DRC hefyd bod y mesurau a weithredwyd hyd yma eisoes wedi cynhyrchu arbedion cost yn ystod 2014/15 a 2015/16.

9. CYTUNDEB DARPARU GWASANAETH 2016

i) Cynnal a chadw'n seiliedig ar wybodaeth

Eglurodd DRC y dull diwygiedig a darluniodd ei weithrediad drwy ddefnyddio system lanhau Gully. Yn hanesyddol, gweithredwyd y system lanhau unwaith y flwyddyn ond oherwydd materion gweithredol a brofwyd, newidiodd ACGCC i gylchoedd dwywaith y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd hyn wedi'i adnabod fel gor-ddarpariaeth ar isadeiledd wedi'i adeiladu'n dda felly bwriadwyd dychwelyd yn awr at gylch gwaelodlin unwaith y flwyddyn gydag ail gylch wedi'i dargedu ar adrannau bregus y rhwydwaith gyda'r bwriad o gyflawni'r system gynnal orau posib.

Cyfeiriodd DRC at lythyr a dderbyniwyd gan y Cyng. Bithell yn mynegi ei bryderon ynglŷn â'r newidiadau i'r gweithgareddau cynnal cylchol yn seiliedig ar wybodaeth, yn enwedig y system torri gwellt.

Rhannodd DRC bryderon y Cyng. Bithell ac aelodau'r Pwyllgor. Fodd bynnag, eglurodd DRC bod yr arbedion posib yn arwyddocaol a bod y penderfyniad yn awr yn nwylo LIC a'i fod bellach yn fater i Bolisi LIC.

ii) Gofynion ychwanegol WGTRMM 2015

Rhoddyd diweddariad gan DRC a chyfeiriodd at weithgareddau newydd WGTRMM nad oeddynt yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Byddai'r gweithgareddau ychwanegol hyn yn gwneud i fyny am sgôp llai'r gwaith a grëwyd gan y system gynnal yn seiliedig ar wybodaeth.

Y bwriad fyddai cyflwyno'r SDA diwygiedig ym mis Tachwedd. Bwriadwyd i'r Asiant gyfarfod gyda Thîmau Cyflawni pob AP i egluro'r gofynion cyn gweithredu'r newidiadau yn ystod 2016.

10. UFA

Cytundeb Partneriaeth – Tynnodd Dilwyn Williams sylw'r aelodau at bwysigrwydd diogelu'r Cytundeb Partneriaeth a'r angen i gynnal yr ymdrechion a wnaed gan bob parti hyd yma i sicrhau parhad model cyflawni'r sector cyhoeddus, yn enwedig dros y cyfnod fyddai'n arwain at etholiad 2016 a thu hwnt.

11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cytunodd aelodau y byddai'r Cyd-bwyllgor nesaf yn cyfarfod ym mis Mai 2016. Byddai dyddiadau'n cael eu cylchredeg er mwyn cael cytundeb.

Ar ran y Cyd-bwyllgor, diolchodd y Cynghorydd Alun Williams am y wybodaeth a'r gwaith caled a ddarparwyd gan y Swyddogion cysylltiedig a oedd wedi arwain at y canlyniad llwyddiannus hwn.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 1:45pm.



Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

Adroddiad Cydbwyllgor

16^{eg} Mai 2016



Yn gweithio ar ran
Llywodraeth Cymru
Working on behalf of the
Welsh Government

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	3
2. Dyrannu gwaith i Unedau Darparu Gwasanaeth (UDG) yr Awdurdodau Lleol	3
3. Trefniadau'r Bartneriaeth	4 - 5
4. Cydymffurfio â gofynion LIC	6 - 7
5. Perfformiad	7
6. Gwella'n Barhaus	7
7. Anghydfodau ynghylch Gwasanaethau	8

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth ar y pynciau sy'n dod o dan gylch gorchwyl penodol y Cydbwyllgor.

2 Dyrannu gwaith i Unedau Darparu Gwasanaeth (UDG) yr Awdurdodau Lleol

- 2.1 Mae gwaith yn parhau i gael ei glustnodi i'r holl Awdurdodau Partner ar draws prif feysydd ymarferol yr Asiantaeth ar gyfer Gwasanaethau Ymgynghorol, Gweinyddu Gwaith a Thechnegol yn unol â phrotocolau'r Asiantaeth. Gweler Tabl 1 isod.
- 2.2 Y rhagolygon yw bod trosiant ar gyfer 2015/16 yn is na lefelau 2014/15 yn bennaf oherwydd gaeaf eithriadol o fwyn. Yn unol â'r dull llyfr agored ar gyfer taliadau i Awdurdodau Partner, mae ACGCC yn adolygu lefelau ffioedd ar hyn o bryd i sicrhau bod costau rheoli a gorbenion sydd wedi'u hadnabod gan Awdurdodau Partner yn cael eu hadfer. Bydd unrhyw addasiadau angenrheidiol yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon terfynol diwedd y flwyddyn fel taliad cysoni. Disgwylir i ragamcaniad o wariant refeniw 2016-17 ac eithrio amrywiadau cynnal a chadw gaeaf a chynnal a chadw ymatebol (CAT1) fod yn debyg i 2014-15. Fodd bynnag, yn dilyn gweithredu'r achos busnes ar gyfer trefn cynnal a chadw yn seiliedig ar wybodaeth, bydd gwneuthuriad y gweithgareddau gwaith yn newid. Bydd ACGCC yn parhau i fonitro trosiant a bydd yn adolygu adfer ffioedd yn flynyddol.
- 2.3 Disgwylir y bydd cyllidebau gwell strwythurau, cynnal a chadw rheolaidd ac ail-densiynu rhwystrau diogelwch a chyflwyno dull glanhau arwyddion wedi'i raglennu yn gwrthbwyso gwariant ar lanhau rhigolydd a thorri gwair. Mae lefelau ariannu yn cael eu cadarnhau gan LC ac ar hyn o bryd mae'n ymddangos y bydd y gyllideb Refeniw gyffredinol tua £66.5m gyda'r gyllideb Gyfalaf wedi'i gosod ar £28.65m. Er bod y gyllideb gyfalaf yn is na blynyddoedd blaenorol, ni fydd mor isel ag a gredwyd yn wreiddiol gan fod Is-adran Rheoli Rhwydwaith LIC wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau gwell lefelau ariannu ledled Cymru, sef tua £16m yn ychwanegol.
- 2.4 Mae lefelau gwariant cyfalaf yn arbennig o bwysig i faich gwaith Ymgynghoriaeth Awdurdodau Partner ynghyd â chadwyn gyflenwi sector preifat yr Asiant. Mae ACGCC yn pwyso ar LC er mwyn cael cadarnhad buan o friffiau a chyllidebau cynlluniau er mwyn darparu gymaint o ddilyniant mewn ffrydiau gwaith ag sy'n bosib.

Rhagamcan Gwariant Cynnyrch 2014/15

Partner	Costau Craidd £000	Gwaith Cynnal a Chadw Arferol/Ymatebol £000	Ymgynghoriaeth / Strwythurau £000	Fframwaith a Thaliadau Allanol eraill £000	Cyfanswm £000
Ceredigion	265	1,903	646		2,814
Conwy	111	3,181	1,695		4,987
Sir Ddinbych	146	1,482	808		2,436
Sir y Fflint	42	2,298			2,340
Gwynedd	434	2,811	3,647		6,892
Powys	833	6,436	1,178		8,447
Wrecsam	25	1,447			1,472
ACGCC	3,273			14,584	17,857
Prif Gyfanswm	5,129	19,558	7,974	14,584	47,245

Rhagamcan Cynnyrch 2015/16 fel ar 27/4/16

Partner	Costau Craidd £000	Gwaith Cynnal a Chadw Arferol/Ymatebol £000	Ymgynghoriaeth / Strwythurau £000	Fframwaith a Thaliadau Allanol eraill £000	Cyfanswm £000
Ceredigion	76	1,702	475		2,253
Conwy	50	2,838	844		3,732
Sir Ddinbych	83	1,133	691		1,907
Sir y Fflint	12	2,322	0		2,334
Gwynedd	386	3,092	3,084		6,562
Powys	309	5,658	1,648		7,615
Wrecsam	25	1,253	138		1,416
ACGCC	3,970	-	-	15,655	19,625
Prif Gyfanswm	4,911	17,998	6,880	15,655	45,444

Tabl 1 Crynodeb o Gyllideb a Gwariant Awdurdodau Partner**3 Trefniadau'r Bartneriaeth**

- 3.1 Yn dilyn cwblhau proses Adolygu'r Asiantaeth a derbyn yr achosion busnes a gyflwynwyd, mae ACGCC wedi bod yn symud ymlaen gyda gweithredu'r achosion busnes ac mae ar y trywydd cywir yn gyffredinol. Mae rhaglen wedi'i diweddarau wedi'i chynnwys yn Atodiad C.

- 3.2 Mae'r broses gweithredu wedi cynnwys newidiadau sylweddol i fodel yr Asiantaeth, y trefniadau gwaith a'r strwythurau staffio gyda'r Awdurdodau Partner ac ACGCC. Rydym wedi profi lefelau cydweithredu da yn gyffredinol ac mae ACGCC yn cydnabod bod y newidiadau wedi codi nifer o faterion a phryderon o fewn yr Awdurdodau Partner ynghylch buddion parhaus darparu gwasanaethau. Mae ACGCC wedi rhoi sicrwydd na fydd yn caniatáu i Awdurdodau Partner wneud colled yn amodol ar ddarparu gwasanaethau effeithlon ond na fydd lefelau ffin gweithredu mor sylweddol ag mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn bodloni her y Gweinidogion.
- 3.3 Mae trefniadau staffio ynghylch gweithredu model newydd yr Asiantaeth wedi'u bodloni mewn proses dau gam, fel a ganlyn:
- Cam 1 - Adnabuwyd y gallai mewnoli swyddogaethau craidd i'r Asiantaeth oddi wrth Awdurdodau Partner fod wedi rhoi rhai swyddi penodol mewn risg os oeddent yn gwbl neu'n rhannol ddibynnol ar lwyth gwaith Cefnffyrdd i'w cefnogi. Er mwyn gwarchod y swyddi hyn, yng Ngham 1 cafodd y staff hyn eu cynnwys o fewn y broses TUPE neu eu cynnwys o fewn grwpiau ystyriaeth ymlaen llaw a rhoddwyd cyfle iddynt ymgeisio am swyddi gyda ACGCC cyn i unrhyw broses recriwtio agored ddigwydd.
 - Cam 2 - Yn dilyn cwblhau'r broses TUPE a'r broses ystyriaeth ymlaen llaw roedd rhai swyddi ar ôl nad oeddent wedi'u llenwi ynghyd â rhai swyddi sylweddol oedd naill ai heb eu llenwi neu wedi'u llenwi ar sail dros dro yn sgil embargo LIC ar recriwtio. Mae'r embargo wedi'i godi bellach ac roedd Cam 2 yn cynnwys proses recriwtio agored i lenwi'r swyddi hyn oedd ar ôl.
- 3.4 Yn gyffredinol, mae'r broses recriwtio wedi mynd yn dda gyda dim ond nifer cyfyngedig o swyddi yn dal heb eu llenwi ac yn cael eu hysbysebu ymhellach. Mae cyfanswm nifer o staff ACGCC, gan ystyried staff Cyfwerth ag Amser Llawn sydd o fewn yr Awdurdodau Partner, wedi gostwng o tua 19 yn dilyn cwblhau'r newid model. O gofio bod llai o staff wedi trosglwyddo na'r swyddi oedd ar gael ystyria ACGCC nad yw'r newid model wedi achosi unrhyw golled swyddi a oedd yn amcan allweddol a adnabuwyd yn adroddiad mis Ionawr 2015 i'r pwyllgor. Darperir crynodeb o ddeilliannau trosglwyddo a recriwtio staff yn Nhabl 2 isod.

Awdurdod Partner	TUPE	Ystyriaeth Ymlaen Llaw	Hysbyseb Agored
Conwy			2
Ceredigion	1	3	1
Sir Ddinbych		2	
Gwynedd		12	
Powys	4	3	3
Wrecsam			1
ACGCC ac arall			9
Cyfanswm	5	20	16
Cyfanswm staff sydd wedi'u recriwtio/trosglwyddo	41		

Tabl 2 Crynodeb o Drosglwyddiadau Staff

3.5 Gweithrediad Diwygiedig y Cytundeb Darparu Gwasanaeth

Er mwyn bodloni gofynion LIC ar gyfer Cytundeb Darparu Gwasanaeth wedi'i cytgordio/cyffredin ac er mwyn gallu elwa o dechnoleg sy'n datblygu ac arferion gweithio gwell, mae ACGCC ac ACDC wedi datblygu diwygiadau angenrheidiol i'w Cytundebau eu hunain. Yn dilyn hynny, mae CDG diwygiedig wedi'i weithredu ers mis Ebrill 2016. Mae'r CDG yn rhoi gwell eglurder wrth weithredu'r TRMM a dylai gynorthwyo gyda dull mwy cyson o ddarparu gwasanaeth ar draws yr Awdurdodau Partner. Mae ACGCC yn gweithio gydag Awdurdodau Partner drwy gyfres o weithdai i sicrhau gweithrediad llyfn a rhoi sylwi i faterion neu bryderon sydd wedi'u codi. Crynhoir y diwygiadau fel a ganlyn:

- **Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru**

Yn 2015 fe wnaeth Llywodraeth Cymru weithredu diwygiadau sylweddol i'r llawlyfr hwn ac mae'n parhau i wella'r ddogfennaeth ar y cyd gyda'r ddau Asiant Cefnffyrdd. Disgwylir dogfen wedi'i diweddarau yn 2016. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys newidiadau a fydd yn darparu arbedion cost o ran cynnal a chadw ac archwilio.

- **Cytundeb Darparu Gwasanaeth**

Mae'r Cytundeb Darparu Gwasanaeth ar gyfer Gwaith yn cynnwys cyfres o ddogfennau manyleb ar gyfer gwaith a gwasanaethau sy'n cael eu pwrcasu gan yr Awdurdodau Partner mewn fformat safonol i'r diwydiant. Mae'n ymgorffori ac yn gweithredu gofynion y Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru cyfredol ac achosion busnes ACGCC a gymeradwywyd gan y Gweinidog.

Mae'r dogfennau wedi'u datblygu ar y cyd ag ACDC fel diweddariad i ddogfennau blaenorol ac maent bellach yn darparu manyleb gyson ar gyfer gwaith cefnffyrdd ledled Cymru. Mae'r fanyleb hefyd yn cynnwys rhai gwelliannau mewn arferion gweithio a defnydd o dechnoleg. Mae dulliau talu Awdurdodau Partner yn adlewyrchu'r dulliau Rhestr Cyfraddau a Rhaglen Adnoddau y cytunwyd arnynt gan archwilwyr Llywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd y Cytundeb Darparu Gwasanaeth ar gyfer Gwaith i Awdurdodau Partner ym mis Ionawr drwy gyfrwng cyfres o weithdai cyflwyno. Ers hynny, mae Awdurdodau Partner wedi bod yn darparu amcangyfrifon cost ar gyfer gwaith a'r gwasanaethau sydd i'w gweithredu yn 2016/17. Bydd ACGCC yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Partner, ACDC a Llywodraeth Cymru i wella'r fanyleb yn barhaus.

3.6 Mae cyfarfodydd gyda Phrif Swyddogion yn parhau er mwyn cynorthwyo gyda gweithredu'r achosion busnes a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi.

3.7 Mae Cofrestr Risgiau'r Bartneriaeth wedi'i hadolygu a'i diweddarau er mwyn adnabod risgiau i Bartneriaeth ACGCC, ac adnabod camau gweithredu er mwyn rheoli a lliniaru risgiau lle bo hynny'n bosib. Mae Cofrestr Risgiau'r Bartneriaeth wedi'i hatodi fel Atodiad A.

4 Bodloni gofynion Llywodraeth Cymru o ran Cytundeb yr Asiantaeth

4.1 Mae'r URhC yn gyfrifol am sicrhau bod gofynion LIC fel maent wedi'u nodi yn y Cytundeb Asiantaeth (WGMAA) yn cael eu bodloni. Nid yw LIC wedi codi unrhyw faterion ynghylch darparu gofynion WGMAA yn ystod y cyfnod adrodd.

4.2 Grŵp Llywio'r Asiantaeth

Cynhaliwyd cyfarfodydd pellach o'r grŵp llywio ar 6 Tachwedd 2015 a 14 Ebrill 2016. Prif ffocws y trafodaethau oedd cynnydd yr achos busnes, gweithrediad ac arbedion cost a ragamcanir. Mae cyllidebau ACGCC bellach yn cael eu gosod yn erbyn costau gwaelodlin diwygiedig ar gyfer cydymffurfiaeth lawn â gofynion Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru, llai'r arbedion a ragamcanir.

4.3 Systemau Rheoli Ansawdd

Cynhaliwyd archwiliad allanol o System Rheoli Ansawdd ACGCC ddechrau mis Medi 2015 gan BSI. Adnabu'r adroddiad 3 mân fater o beidio â chydymffurfio yr ydym wedi mynd i'r afael â nhw. Cynhelir yr archwiliad BSI nesaf ym mis Medi 2016. Bydd adolygiad Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) hefyd yn digwydd ym mis Mehefin 2016.

5 Perfformiad

5.1 Uned Waith PA

Yn gyffredinol, nid oes unrhyw faterion yn codi ynghylch perfformiad yr Uned Waith. Mae meincnodi wedi'i ailadrodd ac mae lefelau cytgordio costau gwaith yn parhau i wella.

5.2 Ymgynghoriaethau'r AP

Dengys y dangosyddion perfformiad yn Atodiad B, Siart 1 bod Ymgynghoriaethau'r AP yn gyffredinol yn parhau i ddarparu lefel dda o wasanaeth. Er bod materion wedi codi ar rai cynlluniau unigol, y mae ACGCC a'r ymgynghoriaethau AP perthnasol yn mynd i'r afael â hwy.

5.3 Fframweithiau Sector Preifat

Dengys y dangosyddion perfformiad yn Atodiad B, Siart 2, 3 a 4 ar gyfer y trefniadau fframwaith sector preifat bod lefel y gwasanaeth a roddir yn gyson dda.

6 Gwella'n barhaus

6.1 Prif ffocws ACGCC yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2015 hyd heddiw oedd gweithredu mesurau lleihau costau oedd yn gysylltiedig â'r achosion busnes a gyflwynwyd yn dilyn adolygiad LIC o Reoli Cefnffyrdd ac i fodloni'r Her Gweinidogol a gyflwynwyd yn Natganiad Ysgrifenedig mis Tachwedd 2014. Ar hyn o bryd, mae ACGCC ar y trywydd cywir i gyflawni'r arbedion a ragwelwyd ac mae swyddogion LIC wedi rhoi sicrwydd yr ystyrir y model cyfredol dan arweiniad y sector cyhoeddus yn un cynaliadwy yn yr hir-dymor, ar yr amod y cyflawnir yr arbedion hynny.

7 Anghydfodau dan Gymal 9.6 y Cytundeb Partneriaeth

- 7.1 Mae Cymal 9.6 y Cytundeb Partneriaeth yn nodi proses ddyrchafu ar gyfer datrys anghydfodau a allai godi rhwng y TRMU a'r Awdurdodau Partner. Mae'n bosib y bydd anghydfodau o'r fath yn cael eu cyfeirio i'r Cydbwyllgor iddo ddod i benderfyniad arnynt, os byddant yn parhau heb eu datrys.
- 7.2 Ar hyn o bryd, nid oes materion sydd wedi'u dyrchafu dan y broses hon i'w hystyried gan y Cydbwyllgor.


ATODIAD A

Cofrestr Risgiau Partneriaeth ACGCC 2016/17 - Adolygwyd gan TRhA Ebrill 2016

Rhif	RISG	Tebygolrwydd	Effaith	Sgôr Risg: Tebyg. X Effaith	EFFAITH Y RISG	PERCHENNO G Y RISG	GWEITHREDU AR Y RISG	LLINIARU HYD YMA	Tebygolrwydd	Effaith	Sgôr risg ar ôl lliniaru Tebyg. ac Effaith
2P	Methu â chyrraedd gofynion cyflwyno gwasanaeth LIC.	4	4	16	1. Yn ddibynol ar natur a graddau'r methiant, mae gweithredu posib ar ran LIC yn cynnwys: a) Yr Asiantaeth yn ymgymryd â chynllun gweithredu cywiro b) Newid y darparwr gwasanaeth i feysydd gwasanaeth sy'n tanberfformio c) Terfynu'r Asiantaeth.	Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid	1. Cynnal y perfformiad oddi mewn i lefelau targed gofynnol LIC.	1. Yr URhC a LIC yn monitro perfformiad yn rheolaidd. 2. Grŵp Llywio'r Asiantaeth/LIC yn adnabod ac yn mynd i'r afael â phroblemau posib. 3. Cynnal cydymffurfiaid gyda Systemau Rheoli Ansawdd. 4. Rôl graffu'r Cydbwyllgor. 5. Gweithredu'r drefn Archwilio. 6. SAG diwygiedig yn cael ei gweithredu a'i chadarnhau fel y model caffael sydd orau gan LIC. 7. Meincnodi cryf rhwng AP a'r sector preifat. 8. Gweithredu comisiynu ffi-sefydlog am wasanaethau ymgynghori gyda phrofion marchnad priodol. 9. Cadarnhau perfformiad bodhaol gan archwilyr allanol LIC.	1	3	3
3P	Methu â chyrraedd gofynion rheolaeth ariannol LIC.	4	4	16	1. Methu â chwrrd â gofynion cyllidebol LIC 2. Niwed sylweddol posib i enw da'r Asiantaeth a'r Awdurdodau Partner, allai beryglu dyfodol yr Asiantaeth. 3. Methu â gwneud y mwyaf o gyllidebau 4. Effaith andwyol ar lif arian Awdurdodau Partner	Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid	1. Cynnal y perfformiad oddi mewn i lefelau targed gofynnol LIC.	1. Mae'r URhC wedi sefydlu system Gyfrifo Ymrwymiad. 2. SPS newydd yn cael ei weithredu ynghyd ag anfonebu misol. 3. Gwarantu cost yn yr Atodlen Gyfraddau a'r briffiau a brisiwyd. 4. Gweithredu'r drefn Archwilio. 5. Gweithredu sail comisiynu ar ffi-sefydlog i wasanaethau ymgynghori gyda thâl wedi cwblhau cerrig milltir. 6. Gweithredu Atodlen Ddiwygiedig Gweinyddiaeth Dechnegol y Darparwr Gwasanaeth.	1	4	4
4P	Yr Asiantaeth yn cael ei therfynu gan LIC o ganlyniad i benderfyniad gwleidyddol.	3	5	15	1. Terfynu'r Bartneriaeth. 2. Colled incwm sylweddol o bosib. 3. Goblygiadau staffio sylweddol o bosib. 4. Colled sylweddol o bosib i'r economi leol.	Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid	1. Cynnal perfformiad ac enw da'r Asiantaeth a darpariaeth yr AP. 2. Gwelliant parhaus i arddangos gwerth am arian. 3. Cydgordio'r Atodlen Gyfraddau a'r prosesau cyflwyno. 4. Mabwysiadu dulliau gweithio arfer gorau i wella effeithlonrwydd gweithrediadau. 5. Cyflwyno cyflwyniad Ebrill ACGChC ar ostwng cost achosion busnes. 6. Cyflwyno targed estynedig arbedion cost LIC.	1. Adolygiad mawr LIC wedi ei gwblhau. 2. Cyflwyniad ac achosion busnes ACGChC Ebrill 2015 yn cael eu derbyn gan LIC.	2	5	10
6P	Un AP yn tynnu'n ôl o'r Bartneriaeth	2	3	6	Bygythiad i ddarpariaeth y gwasanaeth ar y rhwydwaith cefnfyrded yn y sir sy'n cael ei heffeithio.	Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid	1. Byddai angen Cytundeb Partneriaeth wedi'i ddiwygio. 2. Angen adolygu graddau'r ddarpariaeth gwasanaeth a ddarperir gan y AP sy'n gadael. 3. Angen ailddyrranu'r gwaith i Awdurdodau Partner eraill neu i gadwyn gyflenwi'r Sector Preifat. 4. Yr URhC i gynnal parhad y gwasanaeth.	1. Cymal 12 o'r Cytundeb Partneriaeth yn delio gyda'r risg yma - gellir cytuno ar y Cytundeb Partneriaeth gan yr Awdurdodau sy'n weddill. 2. Cymal 6 o Gytundeb y Bartneriaeth yn delio gyda gweithio dros y ffin. 3. Trefniadau cyflenwi y Sector Preifat yn eu lle drwy Fframweithiau os oes angen.	2	3	6
7P	Anghydfod sylweddol rhwng yr Awdurdod Arweiniol a'r Partneriaid	2	2	4	Bygythiad i gyflwyniad y gwasanaeth	Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid	1. Dilyn y broses ddatrys raddol.	1. Cymal 9 o'r Cytundeb Partneriaeth yn diffinio y broses ddatrys.	1	2	2
9P	Diwygio Llywodraeth Leol yng Nghymru.	4	4	16	Newid sylweddol i strwythur a maint y gadwyn gyflenwi ac fe allai prosesau newid cysylltiedig amharu ar gyflwyno'r gwasanaeth yn y dyfodol.	Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid	1. Byddai angen Cytundeb Partneriaeth wedi'i ddiwygio. 2. Adolygu graddau'r ddarpariaeth gwasanaeth a ddarperir gan Awdurdodau Lleol newydd. 3. Angen i'r URhC i gynnal parhad y gwasanaeth.	1 Model ACGChC diwygiedig yn cydweddu gyda threfniadau newydd arfaethedig ALI.	4	2	8
10P	Methiant i wneud arbedion a ragwelir gan Achos Busnes	3	5	15	1. Methiant i fodloni gofynion arbedion y Gweinidogion 2. Terfynu WGMA a sefydlu trefniadau chaffael eraill	Awdurdod Arweiniol a Phartneriaid	1. Gweithredu prosesau rheoli newid 2. Sefydlu model Asiantaeth newydd 3. Sefydlu gweithdrefnau gweithredu newydd	1. Ymgysylltu ag Awdurdodau Partneriaid 2. Cwblhau trosglwyddiad staff y grŵp ystyriaeth blaenorol / TUPE 3. Recriwtio staff agored wedi ei gwblhau'n sylweddol 4. Holl achosion busnes ar raglen	4	2	8


ATODIAD B

Siartiau Perfformiad




Yn seiliedig ar 95 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a gwblhawyd

Siart 1




Yn seiliedig ar 29 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a gwblhawyd

Siart 2



Yn seiliedig ar 57 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a gwblhawyd

Siart 3



Yn seiliedig ar 14 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a gwblhawyd

Siart 4

ATODIAD C

Rhaglen Weithredu'r Achos Busnes

PROFFIL ARBEDION ARFAETHEDIG NMWTRA 2014/15 - 2018/19										
Achos Busnes	Categori Arbedion	Disgrifiad Byr	Cynnydd yn erbyn Rhaglen	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	
				AMSERLEN DARPARU						
BC04 - Gweinyddiaeth Dechnegol	Newid Model Darparu	Mewnoli a rhesymoli darparu swyddogaethau Gweinyddol Technegol i'r Uned Rheoli Cefnffyrdd (TRMU).	Dyletswyddau wedi ei mewnoli 1/4/16 Trefniadau staffio wedi ei gwblhau 1/4/16							
BC05 - Archwiliadau	Newid Model Darparu	Mewnoli a rhesymoli darparu Archwiliadau Diogelwch, Manwl ac Arbenigol i'r TRMU.	Dyletswyddau wedi ei mewnoli 1/4/16 Trefniadau staffio wedi ei gwblhau 1/4/16							
BC06 - Ceidwad Ardal	Newid Model Darparu	Mewnoli a rhesymoli swyddogaeth deient i'r TRMU.	Dyletswyddau wedi ei mewnoli 1/4/16 Trefniadau staffio wedi ei gwblhau 1/4/16							
BC07 Ymgynghoriaeth	Model Caffael Diwygiedig	Lleihad yn y Lluosydd o 2.1 i 1.9 er mwyn bod yn fwy cyson gyda'r sector preifat.	Model diwygiedig ar waith 1/4/15							
BC10 - Cynnal a Chadw Ymatebol	Arbedion Effeithlonrwydd	Ymdrin yn well ag atgyweiriadau diffygion categori.	I'w chyflwyno dros 2016/17							
BC12 - Cynnal a Chadw Gaeaf	Rhestr o Gyfraddau	Sefydlu methodoleg unffurf ar gyfer rhannu costau sefydlog cynnal a chadw gaeaf rhwng Cefnffyrdd a Ffyrdd Sirol.	Cwblhawyd 2014/15							
BC14 - Ymateb i Argyfwng	Newid Model Darparu	Cyflwyno trefniadau diwygiedig i'r Uned Ymateb i Argyfwng ar gyfer ffyrdd deul a sengl.	Cyflwynir yn sylweddol yn 2014/15 y flaeu rhaglen gyda diwygiadau pellach i fynd i'r afael ar asedau trydanol yn 2016/17							
BC - 15 Rhestr o Gyfraddau	Rhestr o Gyfraddau	Datblygu system SOR newydd a wnaeth sefydlu methodoleg tryloyw ar gyfer adnabod a rhannu costau sefydlog gorbenion rhwng y Cefnffyrdd a'r Ffyrdd Sirol h.y. cyfrifiwyd y gorbenion a'r risg ar wahân i gyfraddau'r uned a gweithgareddau cylchol blynyddol.	Cwblhawyd 2014/15 gyda adolygiad a mireinio parhaus							
BC18 - Gwaith Stryd	Newid Model Darparu	Mewnoli a rhesymoli darparu swyddogaethau Gweinyddol Technegol i'r Uned Rheoli Cefnffyrdd (TRMU).	Dyletswyddau wedi ei mewnoli 1/4/16 Trefniadau staffio wedi ei gwblhau 1/4/16							
BC19 Cynnal a Chadw seiliedig ar Risg wedi'i arwain gan wybodaeth	Arbedion Effeithlonrwydd	Gweithredu dulliau cynnal a chadw yn seiliedig ar risg fel y cytunwyd gyda'r Llywodraeth Cymru	I'w chyflwyno dros 2016/17							
BC20 Archwiliadau seiliedig ar Risg wedi'u harwain gan ddeallusrwydd	Arbedion Effeithlonrwydd	Gweithredu dulliau cynnal a chadw yn seiliedig ar risg fel y cytunwyd gyda'r Llywodraeth Cymru	I'w chyflwyno dros 2016/17 a 2017/18							

Tud. 21